Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 30 Hydref, 2018

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd), S. Edwards, (Is-gadeirydd), A. Mummery, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, Mervyn Jones, Meirion Jones, H. Ellis, E. Parry, H. Huws, D. Jones, Anwen Le Cras (Clerc dros dro)

		Gweithred	**Dyddiad**
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	R. Williams (Cynghorwr Sir), Dafydd V Owen (Clerc)		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
2.1	G. Parry ac A. Jones yn datgan diddordeb mewn unrhyw faterion yn ymwneud a'r Clwb Bowlio		
3.0	**Cyfrifon Mis Hydref 2018**		
3.1	A. Mummery wedi derbyn ebost gan Môn Grass Cutting ynglŷn â taliad heb ei dderbyn,.	A. Le Cras i wirio'r taliadau.	27/11/2018
3.2	A. Mummery yn awgrymu talu cyflog mis Hydref i A. Le Cras gan ei bod wedi geithredu ar faterion yn ystod yn ystod y mis. Cytunwyd i'r taliad.	Siec i'w arwyddo.	30/10/18
3.3	Nodwyd amheuaeth am sefyllfa awdit 2017/18.	A. Le Cras i wirio'r cyfrifon.	27/11/18
3.4	Pris Broadband wedi codi.	A Le Cras i edrych mewn iddo.	27/11/18
3.5	Cyfrif y fynwent – nodwyd bod plotiau wedi'i archebu yn y fynwent ond bod y ffioedd heb eu derbyn hyd yma.	J. Roberts a G. Parry am wirio'r sefyllfa.	27/11/18
3.6	M. Jones yn cynnig a D. Jones yn eilio. Cytunwyd i'r taliadau fela'u rhestrwyd.		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	G. C. Jones wedi mynychu cyfarfod Un Llais Cymru. Adroddodd ar gais Ynys Môn i gynnal yr Island Games yn 2025. Cytunwyd fod y Cyngor Bro yn gefnogol i'r cais.		
4.2	A. Mummery – cyfarfod Menter Môn. Cais grant Tŵr Marcwis yn disgwyl penderfyniad yn fuan.		
4.3	Hwb Cymunedol – 5 Swyddog i'w penodi ar draws Ynys Môn. Swyddog wedi'i phenodi ar gyfer ardal Aethwy ond heb gychwyn yn ei swydd.		
4.4	Nodwyd bod cyfarfod llifogydd yn cael ei gynnal gan y Cyngor Sir yn y Neuadd Goffa 14 Tachwedd		
4.5	Adroddodd Meirion Jones fod cais cynllunio man stopio ar gyfer sipsiwn yn Star wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio. Y bleidlais wedi myn i 5-5 a'r Cadeirydd wedi defnyddio'i phleidlais fwrw i gymeradwyo'r cais.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 25 Medi 2018**		
5.1	Derbyn cywiriad i'r dyddiad. Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan G. C. Jones. Derbyniwyd fel rhai cywir.		

6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Gofynnodd G. Parry am gopi o Gytundeb Benthyciad y Clwb Bowlio	A. Le Cras i ofyn i D.V. Owen am y wybodaeth.	27/11/18
6.2	Llwybr Ty'n Caeau. Dim Gwybodaeth pellach gan y Cyngor Sir	A. Mummery i ddilyn i fyny.	27/11/18
6.3	D. Jones a S. Edwards wedi siarad gyda aelod o Ffrindiau Parc y Gors ynglyn a statws y pwyllgor a'u cynlluniau i'r dyfodol.		
6.4	Ffens cae pel droed. S. Edwards wedi derbyn 3 pris am godi ffens o amgylch y cae pêl-droed. N. W. Fencing £7491 & TAW; Alun Parry £5455 & TAW; Môn Fencing £5968 & TAW. Cytunwyd i dderbyn i pris isaf gan Alun Parry a gofyn iddo weithredu mor fuan a phosib.	S. Edwards.	27/11/18
6.5	A. Jones wedi cysylltu gyda Menter Môn i gael cywiro problemau gyda'r safle wê. Datganiad GDPR nawr ar dudalen flaen y safle.		
6.6	Defribillator wedi'i archebu. I'w osod ar dalcen sied y Clwb Bowlio.		
6.7	Pennaeth Indefatigable wedi trefnu arolwg o dŵr nelson ger y Fenai. Gofyn am ddiweddariad.	A. Mummery.	11/11/18
6.8	Lwfans i Gynghorwyr Tref a Chymuned. Angen i aelodau lofnodi ffurflen derbyn/gwrthod.	A. Le Cras.	27/11/18
6.9	Pafiliwn y Gors – angen trefnu cyfarfod gyda Pwyllgor y Clwb Peldroed Iau.	A. Le Cras	27/11/18
6.10	Glanhawr y Gors angen bag Newydd i'r peiriant sugno	A. Le Cras	27/11/18
6.11	Aelodau Newydd angen arwyddo eu bod yn derbyn y Côd Ymddygiad.	A. Le Cras	27/11/18
6.12	Llinellau melyn gwaelod Ffordd Penmynydd. Ysgrifennu at H. Percy, pennaeth Priffyrdd i ofyn am ymestyn y llinellau melyn at Gwilym Terrace.	A. Le Cras	27/11/18
7.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Cyllid 16 Hydref 2018**		
7.1	A. Jones yn cynnig, G.C Jones yn eilio. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
8.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		
8.1	Awdit 2017/18 - A. Le Cras wedi siarad gyda Alun Foulkes a gadarnhaodd nad oedd wedi derbyn y cyfrifon i'w archwilio'n fewnol ar gyfer yr awdit 207/18. Bydd angen gweithredu ar frys pan fydd y cyfrifon wedi trosglwyddo gan D.V. Owen gyda diweddariad ar y sefyllfa.	A. Le Cras	Ionawr 2019
8.2	Materion y Banc – Angen mandad newydd ar gyfer awdurdodi taliadau a trefnu cael gwneud taliadau trwy BACS. Awdurdodi A. Mummery, A. Jones, G. C. Jones ac A. Le Cras. Tynnu D. V. Owen a B. Jones oddi arno.	A. Le Cras	Ionawr 2019
8.3	Rhestr Asedau a Polisi Risg i'w roi ar agenda cyfarfod mis Tachwedd.	A Le Cras	27/11/18
9.0	**Swydd y Clerc**		
9.1	Angen diweddaru'r swydd ddisgrifiad i adlewyrchu holl ddyletswyddau'r Clerc. Gofyn i Unllais Cymru am dempled yn y lle cyntaf. A. Le Cras i barhau fel Clerc dros dro nes bydd y swydd wedi'i hysbysebu a'i llenwi.	G. C. Jones	27/11/18
10.0	**Ceisiadau Cynllunio**		

10.1	Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio.		
11.0	**Gohebiaeth**		
11.1	Grid Cenedlaethol - Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Nodwyd yr angen i gofrestru fel Cyngor â diddordeb. Gofynnwyd i unigolion gofrestru hefyd. Sesiwn gofrestru wedi'i drefnu gan D. Idriswyn Roberts yn y Neuadd Goffa Dydd Iau 8 Tachwedd 4.00 – 7.00yh.	A Le Cras	29/11/18
11.2	Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Hydref 11 2018		
11.3	CSYM – penderfyniadau cynllunio		
11.4	CSYM – gorchymyn cau lôn dros y rheilffordd i ganiatau gwaith.		
12.0	**Materion Brys**		
12.1	Datganiad gan Llywodraeth Cymru am y trydydd bont. Anfon llythyr i Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ddod i roi datganiad i'r Cyngor Bro. Nodi rhyfeddod nad oedd y Cyngor Bro, Cyngor Sir na'r Aelod Cynulliad lleol wedi derbyn gohebiaeth cyn y ddatganiad.	A. Le Cras	27/11/18
12.2	Pwyllgorau angen trafod prosiectau/gwariant i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid er ystyried ym mis Ionawr.	Pawb	06/11/18
12.3	Difrod i gysgodfan yn y Clwb Bowlio yn ystod storm. Cost o £250 & TAW i'w drwsio. Cytunwyd i'r taliad.	A. Jones	Gwanwyn 2019
12.4	Coeden tu cefn i'r feddygfa yn beryglus. Cysylltu gyda rheolwr y feddygfa i'w hysbysebu	A. Le Cras	27/11/18
12.5	Rhai o drigolion Ffordd Caergybi wedi derbyn llythyrau gan Scottish Power ynglŷn a hawliau.		
12.6	Grant "Low carbon Communities". Cytunwyd i ddatgan diddordeb	D. Jones	27/11/18
12.7	D. Jones wedi derbyn pris o £12.50 yr un am ddosbarthwyr bagiau baw ci gan y Cyngor Sir. Cytunwyd i archebu 5 ohonynt.	D. Jones	27/11/18
12.8	Goleuadau Nadolig yn cael eu gosod 21 Tachwedd.		
12.9	Maes Aml Bwrpas – S. Edwards am wneud cais am grant ar gyfer llawr 3G. D. Gilford yn fodlon cymryd yr archebion a Stephen Hughes, Clwb Peldroed Iau yn fodlon derbyn y taliadau a'u trosglwyddo i'r Cyngor Bro.	S. Edwards	
12.10	Gwasaneth Sul y Cofio – trefniadau yn eu lle ar gyfer Gwasanaeth yn y Capel i'w ddilyn gyda gwasanaeth byr ger y cloc.		
12.11	Golau stryd angen ei atgyweirio tu allan i 65 Trem Eryri	A. Le Cras	27/11/18

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 27 Tachwedd 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad